north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

**ADRODDIAD I'R IS-GRŴP CYFLAWNI TRAFNIDIAETH**

**DYDDIAD: 14 Mai 2021**

**Teitl:** Diweddariad y Cadeirydd ar Waith Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (Y Bwrdd Uchelgais) a'r Grŵp Trafnidiaeth Rhanbarthol

**Awdur:** Y Cynghorydd David A Bithell

**1. Pwrpas yr Adroddiad**

Rhoi diweddariad i Aelodau ar waith Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (Y Bwrdd Uchelgais) a'r Grŵp Trafnidiaeth Rhanbarthol.

**2. Y Penderfyniad a Geisir**

Gwahoddir aelodau i nodi'r diweddariad a'r camau gweithredu o'r cyfarfod gydag Alwen Williams, Cyfarwyddwr Portffolio'r Bwrdd Uchelgais, ac Iwan Evans, Swyddog Monitro, Cyngor Gwynedd.

**3. Rhesymau dros y Penderfyniad**

Yn bennaf, adroddiad er gwybodaeth yw hwn ac nid oes angen gwneud penderfyniad ffurfiol o ganlyniad i'r adroddiad.

**4 Cefndir ac Ystyriaethau Perthnasol**

Gwnaed cais am ddiweddariad gan Gadeirydd y Bwrdd Uchelgais.

**5. Goblygiadau Ariannol**

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol penodol yn sgil yr adroddiad hwn.

**6. Goblygiadau Cyfreithiol**

Ni chyfyd unrhyw oblygiadau cyfreithiol penodol o’r adroddiad hwn.

**7. Goblygiadau Staffio**

Ni chyfyd unrhyw oblygiadau staffio o'r adroddiad hwn.

**8. Effaith ar Gydraddoldeb**

Ni chyfyd unrhyw oblygiadau cydraddoldeb penodol ar y cam hwn.

**9. Ymgynghoriadau a gynhaliwyd**

Nid oes angen unrhyw ymgynghoriadau penodol ar y cam hwn.

**10. Atodiad**

Atodiad 1 – Nodiadau'r cyfarfod gydag Alwen Williams, Cyfarwyddwr Portffolio'r Bwrdd Uchelgais ac Iwan Evans, Swyddog Monitro, Cyngor Gwynedd.

---

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro – corff atebol:**

Roeddwn yn croesawu y cyfle I gyfarfod a’r Cadeirydd i drafod agweddau o waith a chyfansoddiad yr Is Fwrdd. Wedi mabwysiadu Cytundeb GA2 sydd yn ymgorffori ei gylch gorchwyl dyfodiad Cyd Bwyllgorau Corfforaethol gyda swyddogaethau penodol iawn mae’n amserol ystyried lle mae’r Is Fwrdd yn eistedd yn y fframwaith newydd yma.

**ii. Pennaeth Cyllid – corff atebol:**

Deallaf fod yr adroddiad cynnydd hwn gerbron er gwybodaeth, felly does gen i ddim i’w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.

**Atodiad 1**

**Trafnidiaeth Rhanbarthol – nodiadau cryno o'r cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Iau, 15 Ebrill**

**Crynodeb o'r cyfarfod**

Amlinellodd Alwen fel a ganlyn:

- Rhoddwyd ffocws ar raglenni dan nawdd y Cynllun Twf dros y 12 mis diwethaf. Y rhaglenni hyn yw Digidol, Tir ac Eiddo, Ynni Carbon Isel, Arloesedd mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel a Bwyd-amaeth a Thwristiaeth. Llofnodwyd y Cynllun Twf ar 17 Rhagfyr 2020.
- Dwy raglen strategol a nodwyd gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd, ond nad ydynt yn cael eu hariannu gan y Cynllun Twf, yw Trafnidiaeth Rhanbarthol a Sgiliau a Chyflogaeth. Mae'r rhain yn ddwy raglen o bwys ac mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn awyddus i weithio â'r rhan-ddeiliaid rhanbarthol i fapio'r ffordd ymlaen. Mae'r cyfarfod hwn yn hwyluso'r drafodaeth gyntaf â'r Cynghorydd Bithell fel cadeirydd yr Is-fwrdd Trafnidiaeth.

Rhoddodd y Cynghorydd Bithell grynodeb o weithgarwch yr is-fwrdd dros y deuddeg mis a fu:

- Mae'r is-fwrdd wedi cwrdd ar bedwar achlysur yn y flwyddyn ddiwethaf. Mae wedi aeddfedu llawer fel is-fwrdd ers iddo gael ei sefydlu ac mae wedi cael cefnogaeth, gyda mewnbwn da i'r bwrdd, gan Iwan Prys Jones.
- Ystyriwyd adroddiadau a chyflwyniadau amrywiol yn ystod y flwyddyn gyda'r is-grŵp yn rhoi adborth i gyrff perthnasol ac yn gwneud argymhellion fel bo'r angen, er enghraifft, bu i'r is-fwrdd argymell i Trafnidiaeth Cymru fynd ati i baratoi Memorandwm o Ddealltwriaeth ynghylch sut mae'r rhwydwaith bws yn gweithredu. Gwnaed awgrym uniongyrchol i'w Prif Weithredwr, James Price, y dylai'r Memorandwm o Ddealltwriaeth gael ei rannu gydag aelodau cabinet ledled Gogledd Cymru.
- Ynghyd ag ystyried Gogledd Cymru, mae'r is-fwrdd wedi cynnal ei berthynas â Growth Track 360 a'r rhaglen drawsffiniol ehangach ar gyfer trafnidiaeth.
- Mae'r Gweinidog Ken Skates AS wedi mynychu dau o'r cyfarfodydd pan drafodwyd y strategaeth trafnidiaeth genedlaethol.
- Mae datgarboneiddio trafnidiaeth a'r dull rhanbarthol ar gyfer gwefru cerbydau trydan yn thema gynyddol sy'n cael ei hystyried gan yr is-fwrdd ac mae adroddiadau wedi'u derbyn ar Hydrogen ac Ynni Carbon Isel.

**Y Cyd-bwyllgor Corfforaethol**

Pan fydd yn cael ei sefydlu, bydd y Cyd-bwyllgor Corfforaethol yn gyfrifol am gynllunio trafnidiaeth strategol. Mae gwaith ar y gweill yn y rhanbarth i ystyried sut fydd strwythur a grym y Cyd-bwyllgor Corfforaethol yn gweithio ar draws ardaloedd yr awdurdodau lleol. Nodwyd yn ystod y cyfarfod y dylai trafodaethau barhau fel a phan y byddai'r dull o sefydlu'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol wedi datblygu yn fwy manwl.

**Camau a gytunwyd**

- Alwen i drefnu cyfarfod pellach tua canol/diwedd mis Mehefin i ail-ymgysylltu ar ôl i Lywodraeth Cymru gael ei sefydlu o'r newydd
- Awgrymwyd, yn y cyfamser, y byddai'r holl Gylch Gorchwyl ar gyfer yr is-grŵp Trafnidiaeth yn cael ei ailystyried, gan ystyried ei briodoldeb/addasrwydd
- Yr is-fwrdd trafnidiaeth i gael gwahoddiad i gyflwyno diweddariad o'i waith i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd. (awgrymir gwneud hyn ddwywaith y flwyddyn)

Yn ychwanegol i'r nodiadau cryno uchod, isod gweler fy mod wedi cynnwys ychydig o baragraffau, a baratowyd gan Iwan Prys Jones, i roi mewnbwn i'r adroddiad blynyddol yr ydym wrthi'n ei gynhyrchu ar hyn o bryd. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r gwaith a wnaed yn y 12 mis diwethaf gan y Swyddfa Rheoli Portffolio a phartneriaid ar ran Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

**Y Rhaglen Trafnidiaeth**

Mae cael rhwydweithiau trafnidiaeth effeithiol a dibynadwy sy'n cysylltu'r Gogledd â marchnadoedd a chyrchfannau allweddol yn hanfodol i gefnogi economi sy’n ffynnu. Sefydlodd y Bwrdd Uchelgais Is-fwrdd Trafnidiaeth i gefnogi a blaenoriaethu buddsoddiad yn ein rhwydweithiau trafnidiaeth a gweithio ledled y rhanbarth i gyflawni gwelliannau. Mae'r ffocws cynyddol ar ddiogelu ein hamgylchedd wedi cynyddu'r angen i ddarparu dewisiadau amgen gwirioneddol i drafnidiaeth ffordd, yn cynnwys rhwydweithiau cludiant teithwyr gwell sy'n integreiddio'n iawn.

Mae'r Bwrdd Uchelgais wedi cefnogi Llywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru gyda datblygu pecyn trafnidiaeth integredig wedi'i frandio fel Metro Gogledd Cymru. Mae rhai prosiectau cyffrous yn cael eu datblygu ar hyn o bryd a fydd yn arwain at welliannau trawsffurfiol i

rwydweithiau rheilffordd a bysiau'r rhanbarth dros y blynyddoedd sydd i ddod. Mae'r rhain yn cynnwys gorsafoedd rheilffordd newydd a rhagor o gapasiti ar ein rhwydwaith rheilffordd, mae cynigion i integreiddio bysiau a rheilffordd ynghyd â theithio llesol ar waith, ynghyd â rhaglenni o ansawdd i gyflawni brandio, gwybodaeth a threfniadau tocynnau gwell. Y nod yw sicrhau bod dewisiadau amgen hyfyw i deithio mewn car ar gael i'r holl drigolion ac ymwelwyr.

Lawr yn llaw â gwelliannau i rwydweithiau trafnidiaeth, mae datgarboneiddio rhwydweithiau trafnidiaeth yn flaenoriaeth gynyddol. Mae paratoi'r rhanbarth ar gyfer cyflwyno cerbydau trydan heb allyriadau ar dipyn o gyflymder, gydag isadeiledd gwefru digonol, yn flaenoriaeth. Mae'r Bwrdd Uchelgais hefyd wedi arwain ar ddatblygu hwb hydrogen yng Nglannau Dyfrdwy, i gyd-fynd ag un arall sy'n cael ei ddatblygu yng Nghaergybi, a'r nod yw rhoi'r rhanbarth ar flaen y gad yng nghyd-destun cyflwyno technolegau cerbydau cell tanwydd a thanwydd hydrogen. Bydd achosion busnes i weithredu hyn yn cael eu cwblhau dros y flwyddyn nesaf.

Mae cyhoeddi Llwybr Newydd – Strategaeth Trafnidiaeth Cymru wedi'i diweddaru, yn gosod rhaglen uchelgeisiol o welliannau i rwydweithiau trafnidiaeth, cynigion datgarboneiddio ac agenda heriol ar gyfer newid. Dros y flwyddyn nesaf, bydd gwaith yn dechrau ar ddiweddaru Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru, mewn ymateb i'r agenda sydd wedi'i osod gan Llwybr Newydd.